



Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales

Gwerthusiad Economaidd o
Sector Bwyd a Diod Cymru –
Diweddariad 2019

Cadwyn Cyflenwi Bwyd a Diod Cymru

Crynodeb

Profodd diwydiant bwyd a diod Cymru flwyddyn arall o dwf economaidd cryf yn y cyfnod a ddaeth i ben ar ddiwedd 2019. Roedd gan fusnesau yn y gadwyn gyflenwi drosiant o £22.1 biliwn yn 2019, cynnydd o £761 miliwn o'r flwyddyn flaenorol. Mae'r gadwyn gyflenwi wedi ychwanegu gwerth i'r economi, gyda GYC (gwerth ychwanegol crynswth) yn cynyddu o £5 biliwn yn 2016 i £5.2 biliwn yn 2017. Mae bwyd a diod o Gymru yn parhau i gael eu mwynhau ar draws y byd gyda allforion gwerth £565 miliwn yn 2019, cynnydd o £26 miliwn o 2018.

Roedd 27,605 o unedau busnes lleol yn y gadwyn gyflenwi bwyd a diod yng Nghymru yn 2019. Mae'r sector yn gyflogwr hanfodol yng Nghymru, gyda 229,500 o weithwyr yn cyfrif am 16.9% o gyflogaeth yn 2018 (gan gynnwys ffermwyr a llafurwyr amaethyddol). Roedd tua 50% o weithwyr, llafurwyr amaethyddol, a ffermwyr cyfwerth ag amser llawn yn 2018¹. Roedd enillion blynyddol canolrifol ar gyfer gweithiwr yn y gadwyn gyflenwi yn £15,137 yn 2018.

Mae'r gadwyn gyflenwi yn bennaf yn cynnwys safleoedd micro-fusnes (sy'n cyflogi llai na 10 o bobl) a oedd yn cyfrif am 85% o'r holl safleoedd bwyd a diod yng Nghymru yn 2019.

Mae hyn yn gymesur uwch na'r cadwyni cyflenwi yn Lloegr (78%) a'r Alban (79%) ond yn is na Gogledd Iwerddon (90%).


Mae Cymru yn parhau i gael ei chydabod am ragoriaeth mewn bwyd a diod. Dyfarnwyd 196 o wobrau Great Taste i gwmnïau yng Nghymru yn 2019, cynnydd o 27 o'r flwyddyn flaenorol.

Cafodd Cymru enw bwyd gwarchoddedig ychwanegol yn 2019 gyda'r eirin Dinbych, gan ddod â cyfanswm nifer y cynhyrchion o Gymru sydd â statws enw gwarchoddedig i 16.

Tueddiadau yn y sector

Ar ôl gostyngiad yn 2017, mae trosiant y gadwyn gyflenwi wedi parhau i godi gyda chynnydd cyffredinol o 9.6% rhwng 2014 a 2019.

Mae nifer yr unedau busnes yn y sector wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn ers 2017. Cynyddodd GYC rhwng 2016 a 2017, ond mae'r ffigur blynyddol wedi dangos amrywioldeb flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae allforion bwyd a diod wedi bod yn cynyddu ers 2015 gyda chynnydd cyffredinol o £162 miliwn.



¹ Newidiodd y dull ar gyfer gyfrifo cyfran y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn yn y sector amaethyddol eleni. Gweler Atodiad B am ragor o fanylion.

Sector â Blaenoriaeth Bwyd a Ffermio

Crynodeb

Mae Sector â Blaenoriaeth Bwyd a Ffermio Cymru yn cyfuno cynhyrchu ar y fferm gyda gweithgynhyrchu bwyd a diod, sy'n cynnwys y prosesau o gynhyrchu, prosesu, a chadw bwyd a diod.

Yn 2014, anelodd Llywodraeth Cymru at gynyddu trosiant y sector i £7 biliwn erbyn 2020. Yn 2019 rhagorwyd ar y targed hwn, gan gynyddu 29.9% rhwng 2014 a 2019 i £7.473 biliwn.

Mae gwerth ychwanegol yn y sector wedi parhau i dyfu gyda GYC yn cynyddu o £1.8 biliwn yn 2016 i £2.1 biliwn yn 2017.

Roedd y sector yn cyflogi 78,800 o bobl yn 2018 (gan gynnwys ffermwyr a llafurwyr amaethyddol) gyda 75% o weithwyr, llafurwyr, a ffermwyr yn gweithio cyfwerth ag amser llawn². Diffiniwyd 98% o'r 14,230 o safleoedd busnes Cymreig y sector fel micro (yn cyflogi llai na 10 o bobl) yn 2019.


Mae hyn yn gyfrannol uwch na'r sectorau yn Lloegr (94%) a'r Alban (93%) ond mae'n cyfateb i'r sector yng Ngogledd Iwerddon.

Tueddiadau yn y sector

Mae nifer yr unedau busnes yn y sector wedi cynyddu dros y 3 blynedd diwethaf ar ôl gostwng yn 2017. Mae enillion blynyddol canolrifol gweithwyr wedi cynyddu'n flynyddol, gan dyfu 14.1% rhwng 2013 a 2018 i £20,579.

Mae hyn yn uwch na chyfradd y DU o 8.3% er bod enillion y DU yn uwch yn gyffredinol, sef £22,373. Mae cyflogaeth yn y sector wedi gostwng o 2014 gan 5,200 oherwydd gostyngiad mewn llafur amaethyddol.

Mae twf GYC wedi amrywio o flwyddyn i flwyddyn ond mae wedi cynyddu'n gyffredinol ers 2013.



Mae trosiant y sector â blaenoriaeth yn cyfuno gweithgynhyrchu bwyd a diod gyda'r diwydiannau amaeth a physgota. Mae'r twf yn bennaf wedi dod o drosiant cynyddol mewn gweithgynhyrchu bwyd a diod.

² Gweler Atodiad B am fanylion am y fethodoleg newydd ar gyfer cyfrifo gweithwyr cyfwerth ag amser llawn yn y sector amaethyddol.

Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod

Crynodeb

Profodd sector Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod Cymru flwyddyn arall o dwf economaidd llwyddiannus yn y cyfnod a ddaeth i ben yn 2019.

Cynyddodd trosiant y sector 8.1% rhwng 2018 a 2019, o £4.8 biliwn i £5.2 biliwn. Mae hyn yn uwch na'r cynnydd cyffredinol o 1.7% yn y DU. Cynyddodd GYC yn y sector yng Nghymru o £1.3 biliwn yn 2016 i £1.6 biliwn yn 2017.

Roedd y sector yn cyflogi 24,315 o bobl yn 2018 ac roedd 94% o swyddi gweithwyr yn gyfwerth ag amser llawn. Diffiniwyd 67% o'r 585 o safleoedd busnes gweithgynhyrchu bwyd a diod Cymru fel micro yn 2019. Mae hyn yn debyg i'r gyfran o ficrofusnesau yn y sector yn Lloegr (68%) ond mae'n uwch na'r sectorau yn yr Alban (59%) a Gogledd Iwerddon (63%).


Yn 2017, roedd y gyfradd o fusnesau newydd a oedd yn gweithgynhyrchu bwyd a diod yn is yng Nghymru (9.1%) o gymharu â'r DU (13.2%). Mae hyn yn cyfateb i 50 o fusnesau newydd yng Nghymru a 1,545 o fusnesau newydd ledled y DU. Roedd y cyfraddau goroesi ar gyfer gweithgynhyrchwyr bwyd a diod newydd yn 2017 yn uwch yng Nghymru nag yn y DU, er enghraifft, roedd y gyfradd oroesi 5 mlynedd yn 50% yng Nghymru a 44.1% ar draws y DU.

Mae hyn yn dangos bod llai o fusnesau, yn gyfrannol, yn cael eu creu yng Nghymru mewn gweithgynhyrchu bwyd a diod o gymharu â'r DU ond mae'r gyfradd goroesi busnes yn uwch.

Tueddiadau yn y sector

Mae trosiant y sector wedi parhau i dyfu ar ôl gostyngiad yn 2017, gyda chynnydd cyffredinol o 36.6% ers 2013. Mae GYC wedi cynyddu'n gyffredinol ond yn parhau i amrywio flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Mae enillion blynyddol canolrifol cyflogeion yn y sector wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn ers 2014, gan godi 15.3% i £20,646 yn 2018. Mae hyn yn uwch na'r cynnydd cyffredinol o 8.4% yn y DU er bod enillion canolrifol yn y DU yn uwch, sef £23,128. Roedd tua 60% o'r gweithwyr yn y diwydiant cynhyrchu bwyd a diod yn ennill y cyflog byw Cymreig yn 2018. Mae'r ffigur hwn wedi cynyddu'n raddol ers 2015.



Cig a Chynhyrchion Cig

Roedd gan sector Cig a Chynhyrchion Cig Cymru drosiant o £1.2 biliwn yn 2019. Gostyngodd trosiant yn sylweddol yn 2018 gan £427 miliwn gan fod nifer fach o fentrau mawr yn ailddosbarthu eu prif weithgaredd fel Cynhyrchion Bwyd Eraill, fodd bynnag, cafodd y newid hwn ei wrthdroi yn 2019. Cynyddodd GYC i £355 miliwn yn 2017 o £196 miliwn yn 2016.

Roedd y sector yn cyflogi 5,380 o bobl yn 2018 ac roedd 96% o swyddi gweithwyr yn gyfwerth ag amser llawn.

Roedd 65 o unedau busnes yn y sector yn 2019. Ym mis Tachwedd 2019 nifer y sefydliadau a gymeradwywyd ar gyfer trin, paratoi, neu gynhyrchu cynhyrchion cig oedd 47 ar gyfer cig coch a 33 ar gyfer dofednod. Roedd enillion blynyddol canolrifol yn y sector yn £18,521 yn 2018.

Roedd allforion cig a pharatoadau cig yn werth £121 miliwn yn 2019 (i fyny o £100 miliwn yn 2018) ac roedd allforion anifeiliaid byw yn werth £48 miliwn (i fyny o £42 miliwn yn 2018).

Amcangyfrifwyd bod allforion cig dafad o dras Gymreig yn 2018 yn werth £128 miliwn, gyda thua 96% yn mynd i wledydd yn yr UE-28. Mae hyn yn ostyngiad o'r ffigur amcangyfrifedig o 2017 (£133 miliwn).

Amcangyfrifwyd bod gwerth allforion cig eidion o dras Gymreig yn £59.5 miliwn yn 2018, gyda thua 92% mynd i'r UE-28. Mae hyn yn gynnydd o'r amcangyfrif o 2017 (£56 miliwn).

Gostyngodd gwariant manwerthu ar gig yng Nghymru o £825 miliwn yn 2018 i £820.6 miliwn yn 2019. Roedd cyfradd y gostyngiad yn is na chyfanswm y DU oherwydd i effaith wrthbwysio twf cryfach ym mhris y cilogram.

Tyfodd gwerthiant cig oen wedi'i rewi yng Nghymru 32.8% tra bu gostyngiad yng ngwerthiant dofednod wedi'u rhewi (-3.7%), cig eidion wedi'i rewi (-15.9%) a phorc wedi rhewi (-16.6%).



— ” —

Roedd allforion cig a pharatoadau cig yn werth £121 miliwn yn 2019 (i fyny o £100 miliwn yn 2018) ac roedd allforion anifeiliaid byw yn werth £48 miliwn (i fyny o £42 miliwn yn 2018).

— “ —

Diodydd

Roedd gan y sector diodydd yng Nghymru drosiant o £1.1 biliwn yn 2019, i fyny o £902 miliwn yn 2018. Amcangyfrifwyd mai £109 miliwn oedd y GYC yn 2017, i lawr o £165 miliwn yn 2016.

Roedd y sector yn cyflogi 1,665 o bobl yn 2018, i lawr o 1,750 yn 2017. Roedd 96% o swyddi gweithwyr cyfwerth ag amser llawn yn 2018.

Cynyddodd nifer yr unedau busnes o 110 yn 2018 i 120 yn 2019, gyda'r mwyafrif o unedau'n cyflogi llai na 10 o bobl (82%).

Ar ôl cyfnod o ddirywiad, cynyddodd allforion diodydd o £26 miliwn yn 2018 i £31 miliwn yn 2019.

Y cyrchfannau uchaf ar gyfer allforion diodydd yn 2019 oedd Ffrainc, yr Iseldiroedd, a Sbaen.

Roedd gwariant manwerthu ar ddiodydd yng Nghymru yn £926.7 miliwn yn 2019, gostyngiad o 2.2% o 2018. Mae hyn yn cyferbynnu â chynnydd o 0.6% mewn gwariant ledled Prydain Fawr.

Achoswyd y gwahaniaeth hwn gan dwf gwannach mewn prisiau a lleihad cryfach mewn amlder prynu yng Nghymru.

Roedd gwerthiant cwrw di-alcohol yng Nghymru yn gymharol fach ond roedd ganddynt y twf cryfaf (74.5%) tra bod cwrw, seidr a gwirodydd i gyd wedi profi dirywiad.



— ” —
Ar ôl cyfnod o ddirywiad,
cynyddodd allforion diodydd
o £26 miliwn yn 2018 i £31 miliwn
yn 2019.
— “ —

Cynhyrchion Bwyd Eraill

Mae'r sector Cynhyrchion Bwyd Eraill yn cynnwys busnesau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau gweithgynhyrchu canlynol: siwgr, coco, siocled, melysion, te, coffi, halen a phupur, prydau a llestri wedi'u paratoi, a paratoi bwyd wedi'i homogoneiddio a bwyd deietegol³.

Trosiant y sector oedd £697 miliwn yn 2019, i lawr o £1.4 biliwn yn 2018. Mae'r newid sylweddol hwn i'w briodoli i nifer fach o fentrau mawr a newidiodd eu prif weithgaredd busnes rhwng blynyddoedd dilynol.

Roedd 100 o unedau busnes yn y sector yn 2019. Roedd cyfanswm o 60% o'r unedau busnes yn cyflogi llai na 10 o bobl tra bod 6% yn cyflogi 250 neu fwy.

Cynyddodd cyflogaeth yn y sector i 6,690 yn 2018 (o 6,535 yn 2017) ac roedd 96% o swyddi gweithwyr yn gyfwerth ag amser llawn.

Amcangyfrifwyd mai £297 miliwn oedd y GYC yn 2017, i fyny o £253 miliwn yn 2016. Roedd enillion blynyddol canolrifol yn y sector yn £22,588 yn 2018.

Rhwng 2018 a 2019, tyfodd y gwariant adwerthu ar melysion cartref 4.7% yn y farchnad Gymreig a 4% yn y farchnad Prydain Fawr. Gellid priodoli hyn i dwf cryf yn y gwerthiant o siocled ym marchnadoedd Cymru a Phrydain Fawr.

Cynyddodd y gwariant ar brydau parod wedi'u hoeri 3.3% ym marchnad Cymru ond gostyngodd 1.3% ledled Prydain Fawr. Gostyngodd gwerthiant ar brydau parod wedi'u rhewi yn y ddwy farchnad. Gostyngodd gwerthiant coffi gwib a the yn y sectorau Cymreig a Phrydain Fawr.



— ” —
Amcangyfrifwyd mai £297 miliwn oedd y GYC yn 2017, i fyny o £253 miliwn yn 2016. Roedd enillion blynyddol canolrifol yn y sector yn £22,588 yn 2018.
— “ —

³ Mae enghreifftiau o baratoi bwyd wedi'i homogoneiddio a bwyd deietegol yn cynnwys llaeth fformiwla, llaeth dilynol, bwydydd heb glwten, bwydydd sodiwm isel a bwydydd diabetig

Cynnyrch Llaeth ac Wyau

Roedd gan sector cynnyrch llaeth Cymru drosiant o £611 miliwn yn 2019, i fyny o £451 miliwn yn 2018. Amcangyfrifwyd bod GYC yn £116 miliwn yn 2017, sy'n gynnydd o £91 miliwn yn 2016.

Roedd y sector yn cyflogi 1,535 o bobl yn 2018 ac roedd 93% o swyddi gweithwyr yn gyfwerth ag amser llawn.

Roedd 55 o unedau busnes yn y sector yn 2019 ac roedd y rhan fwyaf o unedau yn cyflogi llai na 10 o bobl (59%) neu rhwng 10 a 49 o bobl (23%).

Ym mis Tachwedd 2019, cymeradwywyd 98 o sefydliadau i brosesu wyau neu gynhyrchion wyau a 90 o sefydliadau a gymeradwywyd i brosesu llaeth amrwd neu gynhyrchion llaeth.

Mae nifer y gwartheg godro wedi bod yn gyson dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gyda'r mwyafrif yn 2+ oed gyda'u hepil (57%).

Arhosodd nifer yr ieir a ddefnyddid i gynhyrchu wyau yng Nghymru yn sefydlog ar 2.3 miliwn, cynnydd o 200,000 ers 2014.

Gostyngodd gwariant manwerthu ar laeth a cynnyrch llaeth yng Nghymru o £455.7 miliwn yn 2018 i £454.2 miliwn yn 2019, gostyngiad o 0.3%. Mae hyn yn cyferbynnu â'r cynnydd o 0.9% mewn gwariant manwerthu ledled Prydain Fawr.

Roedd y gwahaniaeth rhwng y marchnadoedd hyn yn cael ei lywio gan siopwyr yng Nghymru yn prynu llai ac yn prynu cynnyrch llaeth yn llai aml na siopwyr ar draws Prydain.

Roedd y gwariant ar gynhyrchion llaeth â chyflasynnau yn profi'r twf cryfaf yng Nghymru a ledled Prydain, ac roedd hufen iâ a chonau hufen iâ yn dangos gostyngiad cryf yn y ddwy farchnad.

Yng Nghymru, gostyngodd y gwariant ar fanwerthu ar laeth 0.9% tra cynyddodd y gwariant ar gaws 3.3%.



— ” —

Roedd gan sector cynnyrch llaeth Cymru drosiant o £611 miliwn yn 2019, i fyny o £451 miliwn yn 2018.

— “ —

Pobi

Roedd gan y sector Pobi yng Nghymru drosiant o £560 miliwn yn 2019, i fyny o £507 miliwn yn 2018.

Roedd y sector yn cyflogi 6,125 o bobl yn 2018 ac roedd 89% o swyddi gweithwyr yn gyfwerth ag amser llawn. Gostyngodd nifer yr unedau busnes yn y sector o 170 yn 2018 i 165 yn 2019.

Mae cyfran yr unedau sy'n cyflogi llai na 10 o bobl wedi gostwng o 70% yn 2018 i 68% yn 2019. Cynyddodd GYC o £194 miliwn yn 2016 i £224 miliwn yn 2017, fodd bynnag, mae'r GYC wedi amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

Roedd enillion blynyddol canolrifol yn y sector yn £17,362 yn 2018⁴.

Cynyddodd gwariant manwerthu ar gynnyrch pobi yng Nghymru o £439 miliwn yn 2018 i £444.4 miliwn yn 2019, sef cynnydd o 1.2%.

Roedd y twf yn is na'r ffigur ar gyfer Prydain Fawr (3.5%) oherwydd gostyngiad bach yn amllder prynu a chyfaint fesul prynwr.

Roedd twf mewn gwerthiannau pobi ar lefel Prydain yn gryfaf ar gyfer archfarchnadoedd disgownt, ond nid oedd yr effaith hon yn berthnasol i farchnad Cymru.

Pasteiod wedi'u tostio oedd y cynnyrch a berfformiodd gryfaf o ran twf mewn gwariant ar lefel Cymru a Phrydain Fawr.

Bisgedi tymhorol a phwdinau Nadolig oedd y cynnyrch â'r perfformiad gwaethaf ar gyfer marchnadoedd Cymru a Phrydain Fawr.



— ” —
Cynyddodd gwariant manwerthu
ar gynnyrch pobi yng Nghymru
o £439 miliwn yn 2018 i
£444.4 miliwn yn 2019,
sef cynnydd o 1.2%.

— “ —

⁴ Mae ffigur enillion blynyddol canolrifol yn y sector pobi yn cael ei ystyried yn dderbyniol gan Lywodraeth Cymru ond gall fod yn llai manwl na sectorau eraill.

Manwerthu a Chyfanwerthu

Profodd y sector Manwerthu Bwyd a Diod gyfnod o ddirywiad rhwng 2015 a 2019. Gostyngodd trosiant yn y sector yng Nghymru o £9.2 biliwn yn 2015 i £8.6 biliwn yn 2019.

Gostyngodd trosiant y sector yn y DU 2.1% rhwng 2015 a 2018 tra gostyngodd y sector yng Nghymru 4.9% yn yr un cyfnod. Gostyngodd GYC yn y sector yng Nghymru o £1.42 biliwn yn 2016 i £1.39 biliwn yn 2017. Gostyngodd nifer yr unedau busnes lleol o 3,980 yn 2018 i 3,940 yn 2019, gyda 70% yn cyflogi llai na 10 o bobl.

Cynyddodd cyflogaeth yn y sector o 56,490 yn 2017 i 58,795 yn 2018, er bod cyflogaeth wedi gostwng o 12,630 ers 2013.

Roedd 29% o swyddi gweithwyr yn y sector yn gyfwerth ag amser llawn yn 2018 ac roedd yr enillion blynyddol canolrifol yn £13,026. Cynyddodd gwerthiannau manwerthu bwyd a diod Cymru o £5.583 biliwn yn 2018 i £5.595 biliwn yn 2019. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 0.2%, sy'n is na chyfanswm y cynnydd o 1.1% ym Mhrydain. Priodolwyd y gyfradd twf arafach yng Nghymru i ostyngiad yng nghyfanswm y cyfaint a brynwyd (-0.9%) a chyfaint fesul prynwr (-1.4%).

Profodd archfarchnadoedd disgownt flwyddyn o dwf cryf ar lefel Cymru a Phrydain Fawr. Profodd Morrisons ac Asda dwf cadarnhaol mewn gwariant manwerthu yn y farchnad yng Nghymru tra profodd Tesco a Sainsbury's ddirywiad. Profodd pob un o'r pedair archfarchnad ddirywiad mewn gwariant manwerthu ar lefel Prydain Fawr.

Gostyngodd trosiant yn sector Cyfanwerthu Bwyd a Diod Cymru flwyddyn ar ôl blwyddyn rhwng 2014 a 2017, ond fe adferodd rhwng 2018 a 2019, gan gyrraedd £2.04 biliwn.

Cynyddodd GYC o £350 miliwn yn 2016 i £368 miliwn yn 2017. Roedd 780 o unedau busnes yn y sector yn 2019 gyda 81% yn cyflogi llai na 10 o bobl.

Ar ôl cynnydd sylweddol yn 2016, mae nifer y bobl a gyflogir yn y sector wedi gostwng i 6,825 yn 2018 (gostyngiad o 3,695 ers 2016). Roedd 76% o swyddi gweithwyr yn 2018 yn gyfwerth ag amser llawn. Arhosodd enillion blynyddol canolrifol yn y sector yn sefydlog ar £18,874 yn 2018.



— ” —

Profodd Morrisons ac Asda dwf cadarnhaol mewn gwariant manwerthu yn y farchnad yng Nghymru tra profodd Tesco a Sainsbury's ddirywiad. Profodd pob un o'r pedair archfarchnad ddirywiad mewn gwariant manwerthu ar lefel Prydain Fawr.

— “ —

Arlwyo

Mae'r sector arlwyo yn cynnwys yr holl wasanaethau arlwyo dibreswyl gan gynnwys bwytai a chaffis, gwasanaeth bwyd, arlwywyr symudol, tecawê, ac arlwyo ar gyfer digwyddiadau.

Mae trosiant wedi bod yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, o £2.2 biliwn yn 2014 i £3 biliwn yn 2019. Gostyngodd GYC o £1.13 biliwn yn 2016 i £1.1 biliwn yn 2017.

Roedd y sector yn cyflogi 79,630 o bobl yn 2018 gyda 33% o swyddi gweithwyr yn gyfwerth ag amser llawn. Roedd 74% o'r 8,500 o unedau busnes yng Nghymru yn cyflogi llai na 10 o bobl yn 2019.

Yn ôl yr Arolwg o Gostau Byw a Bwyd, roedd cyfartaledd y gwariant wythnosol am bob person ar fwyd a diod i'w fwyta y tu allan i'r cartref yng Nghymru yn £11.22 rhwng 2015/16 a 2017/18. Dyma'r gwariant isaf y pen ar draws rhanbarthau'r DU. Yn seiliedig ar bwysau wythnosol cyfartalog a ddefnyddiwyd, y bwydydd mwyaf poblogaidd a fwytawyd yng Nghymru oedd cig neu gynhyrchion cig (90g), tatws ffres a rhai wedi'u prosesu (72g), a brechdanau (55g)⁵.

Twristiaeth

Cynyddodd gwariant twristiaid ar fwyd a diod rhwng 2017 a 2018.

Amcangyfrifwyd bod gwariant twristiaeth ar fwyta ac yfed yn 2018 yn £387 miliwn, cynnydd o 11.8% o'r flwyddyn flaenorol.

Mae hyn yn cyferbynnu â'r twf o 1.3% ar draws Prydain, twf o 1.7% yn Lloegr, a gostyngiad o 7.3% yn yr Alban.



— ” —

Mae trosiant wedi bod yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, o £2.2 biliwn yn 2014 i £3 biliwn yn 2019.

— “ —

⁵ Cafodd 78g o "gynhyrchion bwyd eraill" ei fwyta bob wythnos, ar gyfartaledd, ond roedd y categori hwn yn cynnwys prydau amhenodol ac ni chafodd ei gynnwys yma.

Atodiad A: Diwydiannau Bwyd a Diod Cymru mewn cyd-destun

Mae gan Lywodraeth Cymru uchelgeisiau i sicrhau bod bwyd a diod o Gymru yn cystadlu â sector ehangach y DU.

Mae'r data isod yn dangos ystadegau diwydiant Cymru yng nghyd-destun holl ddiwydiannau bwyd a diod y DU.

Sectorau Cymreig fel cyfran o'r DU

| | Cymru | DU | Cymru fel % o'r DU |
|--|-------|----|--------------------|
|--|-------|----|--------------------|

Cadwyn Cyflenwi Bwyd a Diod

| | | | |
|-------------------|---------------|----------------|-------------|
| Trosiant 2018 | £21.35 biliwn | £538.23 biliwn | 4% |
| Unedau lleol 2018 | 27,480 | 454,095 | 6.1% |
| GYC 2017 | £5.2 biliwn | £132.56 biliwn | 3.9% |

Sector â Blaenoriaeth Bwyd a Ffermio

| | | | |
|-------------------|--------------|----------------|-------------|
| Trosiant 2018 | £6.83 biliwn | £141.03 biliwn | 4.8% |
| Unedau lleol 2018 | 14,175 | 161,730 | 8.8% |
| GYC 2017 | £2.05 biliwn | £39.73 biliwn | 5.2% |

Sector Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod

| | | | |
|-------------------|--------------|---------------|-------------|
| Trosiant 2018 | £4.84 biliwn | £99.77 biliwn | 4.9% |
| Unedau lleol 2018 | 580 | 13,155 | 4.4% |
| GYC 2017 | £1.57 biliwn | £28.42 biliwn | 5.5% |


Yma rydym yn cyflwyno cymhariaeth o ystadegau bwyd a diod rhwng Cymru a'r DU.

Twf blynyddol yn nhrosiant y sector bwyd a diod


Mae gan Lywodraeth Cymru uchelgeisiau i sicrhau bod bwyd a diod o Gymru yn cystadlu â sector ehangach y DU.

Mae'r data isod yn dangos ystadegau diwydiant Cymru yng nghyd-destun holl ddiwydiannau bwyd a diod y DU.


Cadwyn Cyflenwi Bwyd a Diod



Sector â Blaenoriaeth Bwyd a Ffermio



Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod



Atodiad B: Nodiadau methodolegol

Dyma'r ail flwyddyn i'r gwerthusiad economaidd gael ei gynhyrchu'n fewnol gan Lywodraeth Cymru. Cynhyrchwyd gwerthusiadau economaidd blaenorol gan Brookdale Consulting.

Casglwyd y data yn y gwerthusiad hwn rhwng Hydref 2019 a Mawrth 2020.

Yr ystadegau a gyflwynwyd yn y gwerthusiad hwn oedd y diweddaraf a oedd ar gael ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Newidiadau i'r fethodoleg

Gweithwyr cyfwerth ag amser llawn

Mae'r dull o gyfrifo cyfran y gyflogaeth lawn amser yn sector â blaenoriaeth bwyd a ffermio Cymru a chadwyn cyflenwi bwyd a diod Cymru wedi newid eleni.

Roedd gwerthusiadau economaidd blaenorol yn defnyddio amcangyfrifon a gafwyd o arolwg amaethyddiaeth a garddwriaeth Mehefin i gyfrifo canran cyfwerth ag amser llawn yn y sector amaethyddol yng Nghymru.

Cyfrifir y ffigur a ddefnyddir yn y gwerthusiad hwn gan ddefnyddio amcangyfrif o nifer y gweithwyr llawn amser sy'n ofynnol ar gyfer ffermydd Cymru. Mae hyn yn seiliedig ar swm wedi'i bwysoli o oriau gwaith disgwylidig fesul anifail neu hectar o dir.

Dylid cymryd y ffigur hwn fel un dangosol gan fod rhywfaint o waith amaethyddol yn dymhorol (e.e. cynaeafu ar ffermydd â'r, wyna ar ffermydd defaid) a gellir gwneud gwaith o ddydd i ddydd yn anffurfiol (e.e. gan y teulu agos).

Gwariant manwerthu

Mae ystadegau ar wariant manwerthu ar fwyd a diod yng Nghymru yn is yn y diweddariad 2019 o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae hyn o ganlyniad i Kantar yn ail-seilio codau post Cymru wrth gyfrifo gwariant manwerthu mewn siopau yng Nghymru.

Mae'r ystadegau a gyflwynir yn y gwerthusiad hwn bellach yn ffigurau diffiniol ar gyfer gwariant manwerthu bwyd a diod.

Lluniwyd yr ystadegau yn y ddogfen hon rhwng Hydref 2019 a Mawrth 2020. Mae'r pwyntiau trafod yn y ddogfen hon yn rhagflaenu'r pandemig COVID-19.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â:

FoodDivisionalBusiness@gov.wales neu economic.stats@gov.wales